Cyngor Cymuned Llanfihangel-yng-Ngwynfa

Munudau cyfarfod nos Lun, 16eg o Fawrth 2020 yn Neuadd Llwydiarth am 7.00yh

Presennol: Cr Ifan Owen (Cadeirydd), Cr Alan Broughall, Cr Emyr Jones a'r Cr Geraint Gittins

Ymddiheuriadau: (032)
Cr Paul Jenkins, Cr Fiona Montague, Cr Llion Jones

Datganiad o ddiddordeb (033)
Cr Owen – Agenda, Eitem 15 – Cais Cynllunio 20/0148/HH

Munudau (034)
CYTUNWYD i dderbyn munudau cyfarfod 17eg o Chwefror fel cofnod cywir.

Materion yn codi (035)
Dim

Adroddiad y Cadeirydd(036)
Dim

Adroddiad y Cynghorydd Sir (037)
Dywedodd y Cr Emyr Jones fod cyllid Powys am 2020-21 i godi 4.8%.

CIC/Grŵp Clwstwr (038)
Dim i'w adrodd – aros am ohebiaeth oddi wrth y Cwmni Clwstwr ar y ffordd ymlaen.

Gohebiaeth (039)
Llythyr yr Aelod Seneddol – bydd llythyr yn cael ei yrru pan fydd y Coronafeirws wedi pasio. **Gweithred y Clerc**.
Ebost oddi wrth Fforwm Cynghorau Lleol, Gogledd Maldwyn – Dechreuad Newydd. CYTUNODD y Cyngor i ysgrifennu at y Fforwm yn datgan y canlynol:

a. Mae'r Cyngor yn cytuno gyda ac yn cefnogi bodolaeth y Fforwm
b. 'Does ond angen i'r Fforwm gyfarfod dwy neu dair gwaith y flwyddyn.
c. Fforwm Siarad a fyddai'n cynrychioli pob cyngor yng ngogledd y sir ond ddim â'r awdurdod i orchymyn cynghorau bro a thref.

Hysbysiad o Gadarnhad ar gyfer Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus, Rhif 139 a 230 – fe'i nodwyd gan y Cyngor

Parti'r Pensiynwyr (040)
Oherwydd y Coronafeirws, CYTUNODD y Cyngor i ohurio Parti'r Pensiynwyr ym mis Mehefin ac i ail drafod dyddiad arall yn ystod cyfarfod Gorffennaf. **Gweithred y Clerc**.

Toiledau Dolanog (041)
CYTUNODD y Cyngor i dderbyn yr amcanbris Mr A Burns i baentio muriau mewnol toiledau Dolanog, am bris o £725.00. **Gweithred y Clerc**

Plygu gwrych maes parcio Llwydiarth(042)

CYTUNODD y Cyngor i dderbyn amcanbris Mr D Bebb am £275 + TAW i ail blygu'r gwrych yn y maes parcio yn Llwydiarth. **Gweithred y Clerc**

Yr Archwilydd Mewnol (043)
CYTUNODD y Cyngor i dderbyn gwasanaeth Mr G Smith i gwblhau'r archwiliad mewnol i gyfrifon 2019/20, am ffî o £50.00.

Adolygiad o gyflog y Clerc hyd at £11.22 yr awr, yn unol â graddfa newydd SCP 11 argymhellion y cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Llywodraeth Leol (NALC), i ddechrau 1af o Ebrill 2020.

Cyllid (046)

Ffigyrau Datganiadau'r Banc: Cyfrif Cyfredol: £5,353.08
Cyfrif Cadw: £11,965.09

Taliadau:

Cyflog a chostau'r Clerc	£174.91 (BACS)
Cyllid a Thollau EM PAYE	£38.00 (BACS)
OZLOOS	£48.00
Net Wise (Gwefan)	£499.00 (BACS)
"Op London Bridge" (llyfr cydymdeimlad)	£19.99 (BACS)
123 Reg (Adnewyddu "domain" am 6 mlynedd)	£86.33 (BACS)
Mr D Bebb	£330.00

Cynllunio (047)

20/0129/HH Cyfeirnod grid: E:305078 N: 314162 Cynnig: Dymchwel ysgubor gyffiniol yn rhannol a chodi estyniad i'r llawr cyntaf: Glan y, Rhyd, Dolanog, y Trallwng, SY21 0NG
CYTUNODD y Cyngor i gefnogi'r cais. **Gweithred y Clerc**

Nid oedd y Cr Owen yn rhan o'r drafodaeth ar y cais canlynol:
20/0148/HH Cyfeirnod grid: E:308022 N: 316827 Cynnig: Dymchwel cyntedd a chodi estyniad newydd. Cyfeiriad y safle: Brynhyfryd, Llanfihangel, Llanfyllin, Powys SY22 5JD
CYTUNODD y Cyngor i gefnogi'r cais. **Gweithred y Clerc**

Priffyrdd (048)
Dim

Gwybodaeth i'r aelodau (049)
O ganlyniad i'r Coronafeirws, mae'r Cyngor am benderfynu dyddiad y cyfarfod nesaf yn agosach i'r amser, os y bydd yn briodol i gynnal cyfarfod o gwbl. Dywedodd y Clerc y byddai'n hunan ynysu gan fod ei iechyd mewn perygl petai yn dal y feirws. Ni fyddai'n mynychu'r cyfarfod ond yn teipio'r munudau ac yn parhau gyda'r gwaith o gartref.

CYTUNODD y Cyngor i gynnal y cyfarfod nesaf yn yr Hen Ysgol, Dolanog, nos Lun, 20fed o Ebrill, 2020 am 7.30yh.

Arwyddwyd..... (Cadeirydd) Dyddiad.....